

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Rhagfyr 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("y Prif Reoliadau").
- 1.2 Mae'r Prif Reoliadau'n caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG (fel y bo'n gymwys) yng Nghymru godi ac adennill ffioedd am wasanaethau gofal iechyd perthnasol a ddarperir i ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswyllo'n arferol yn y Deyrnas Unedig (DU), oni bai bod yr ymwelydd tramor neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael yn syrthio o fewn eithriad codi tâl.
- 1.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i sicrhau bod y gofyniad i'r GIG yng Nghymru drin cleifion tramor o Wlad yr Iâ a Liechtenstein yn unol â darpariaethau gofal iechyd Confensiwn Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol y DU-AEE/EFTA ("y Confensiwn") yn cael ei adlewyrchu yn y Prif Reoliadau.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf 2006), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer codi ac adennill ffioedd gan bersonau nad ydynt yn "preswyllo'n arferol" yn y Deyrnas Unedig ar gyfer gwasanaethau'r GIG.
- 3.2 Mae'r offeryn hefyd yn cael ei wneud o dan adran 203(9) o Ddeddf 10 ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud i roi effaith cyfreithiol lawn i ddarpariaethau gofal iechyd cilyddol y Confensiwn Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a gwladwriaethau AEE/EFTA (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein).
- 4.2 Llofnodwyd y Confensiwn gan gynrychiolwyr Llywodraeth y DU a'r Gwladwriaethau AEE/EFTA ar 30 Mehefin 2023 ac fe ddaw i rym ar 1 Ionawr 2024 ar gyfer y tair gwladwriaeth, pan fydd y gweithdrefnau angenrheidiol wedi'u gwneud gan eu cyrff cenedlaethol.
- 4.3 Mae'r Confensiwn yn ailsefydlu'r mwyafrif o'r trefniadau iechyd cilyddol y darparwyd ar eu cyfer cyn ymadael â'r UE gan ddarpariaethau gofal iechyd cilyddol amrywiol yr UE a oedd yn ymestyn i Wladwriaethau AAE/EFTA.

- 4.4 O ran gofal iechyd cilyddol mae'r Confensiwn yn darparu, lle mae'r DU neu'r Wladwriaeth AEE/EFTA yn gyfrifol am ofal iechyd unigolyn ac yn dod o fewn cwmpas y Confensiwn, y bydd gan yr unigolyn hawl i ofal iechyd cilyddol yn y DU neu'r Wladwriaeth AEE/EFTA.
- 4.5 Nodir prif ddarpariaethau gofal iechyd cilyddol y Confensiwn sy'n berthnasol i ofal iechyd yng Nghymru isod:
- Gofal iechyd angenrheidiol – darparu gofal iechyd y wladwriaeth sy'n dod yn angenrheidiol tra bo unigolyn ar arhosiad dros dro mewn gwladwriaeth gontractio arall, gan gynnwys triniaethau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw mewn gwladwriaeth gontractio arall a darpariaeth sy'n caniatáu i'r rhai sy'n mynd yn sâl ar fordaith gael gofal iechyd angenrheidiol a ariennir gan y wladwriaeth yn y wladwriaeth y mae'n cyrraedd ynddi.
 - Triniaeth wedi'i chynllunio (A2) – Gall unigolion ddewis cael triniaethau wedi'u cynllunio yng Ngwladwriaethau AEE/EFTA ac i'r gwrthwyneb yn amodol ar feini prawf cymhwys.
 - Gofal iechyd cilyddol cynhwysfawr – mae pensiynwyr, gweithwyr trawsffiniol ac allforwyr budd-daliadau sy'n gymwys yn gymwys o dan y Confensiwn hwn yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwys.
 - Cwmpas personol – fel gyda'r TCA, mae'r Confensiwn hwn yn cynnwys cwmpas personol 'sy'n ddall o ran cenedligrwydd' mewn perthynas â phwy sy'n dod o dan y Confensiwn - hynny yw, ar gyfer gofal iechyd cilyddol, bydd y cwmpas personol yn cwmpasu pawb sy'n preswyllo yn y DU waeth beth fo'u cenedligrwydd (ac i'r gwrthwyneb).
- 4.6 Mae'r Prif Reoliadau yn nodi'r dyletswyddau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ynghylch codi tâl am drin ymwelwyr tramor. Maent yn cynnwys categorïau o ymwelwyr tramor sydd wedi'u heithrio rhag talu ffi, gan gynnwys rhai sy'n cael gwasanaethau sy'n dod o dan gytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Mae Atodlen 2 o'r Prif Reoliadau'n rhestru gwledydd y mae gan y DU gytundebau o'r fath â hwy.
- 4.7 Bydd mewnosod Gwlad yr Iâ a Liechtenstein yn Atodlen 2 o'r Prif Reoliadau yn sicrhau bod darpariaethau gofal iechyd y Confensiwn y cyfeirir ato uchod yn cael effaith gyfreithiol lawn yng Nghymru
- 4.8 Mae Norwy eisoes wedi'i rhestru yn y Prif Reoliadau gan fod cytundeb dwyochrog cyfyngedig a oedd eisoes yn bodoli gyda'r DU (Confensiwn 1991 ar Nawdd Cymdeithasol rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Teyrnas Norwy a phrotocol atodol dilynol). Y cytundeb hwn sy'n bodoli eisoes yw'r system wrth gefn ar gyfer gofal iechyd cilyddol rhwng y DU a Norwy ers ymadael â'r UE a bydd yn peidio â bod yn gymwys yn y DU ar ôl i'r Confensiwn ddod i rym gyda Norwy.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau. Bernir nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn gofyn am ymgynghoriad gan eu bod yn rhoi ar waith cytundebau rhyngwladol y DU sy'n gymwys i'r DU gyfan ac felly mae'n ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

6.1 Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim, cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.
- **Opsiwn 2:** Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.

Opsiwn 1: Gwneud dim

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("y Prif Reoliadau") fel y maent mewn grym ar hyn o bryd, gan beidio â'u diwygio i adlewyrchu darpariaethau gofal iechyd Confensiwn AEE/EFTA.

Costau a manteision

- 6.3 Mae Confensiwn yr AEE/EFTA yn rhwymo'r DU gyfan ac felly mae'n ofynnol eisoes i Gymru ei roi ar waith a'i barchu. Felly ni fyddai methiant i wneud y newidiadau hyn yn newid rhwymedigaeth Cymru i weithredu gofynion y cytundeb â Gwladwriaethau AEE/EFTA.
- 6.4 Nodir gwybodaeth am gostau amcangyfrifedig darpariaethau gofal iechyd y Confensiwn i Gymru ym mharagraffau 6.11 i 6.18 isod.
- 6.5 Os na chaiff y Prif Reoliadau eu diwygio i gynnwys Gwlad yr Iâ a Liechtenstein, byddai hyn yn gadael cyfraith Cymru yn anghywir.
- 6.6 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn gadael diffyg eglurder i'n Byrddau Iechyd Lleol os na fydd y Prif Reoliadau'n adlewyrchu safbwynt y DU yn gywir, gan fod Byrddau Iechyd Lleol yn defnyddio'r Prif Reoliadau i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac i ddarganfod a yw'r bobl y maent yn darparu gwasanaethau'r GIG iddynt yn gorfod talu ffioedd neu a ydynt wedi'u heithrio rhag talu ffioedd.

Opsiwn 2. Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.

6.7 Byddai'r opsiwn hwn yn diwygio'r Prif Reoliadau i fewnosod cyfeiriad at ddarpariaethau gofal iechyd Confensiwn y DU ac AEE/EFTA.

Costau a manteision

- 6.8 Bydd ychwanegu Gwlad yr Iâ a Liechtenstein at y Prif Reoliadau yn sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru yn dal yn gywir ac yn weithredol ac yn adlewyrchu'r Confensiwn rhwng y DU a Gwladwriaethau AEE/EFTA.
- 6.9 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi eglurder i'n Byrddau Iechyd Lleol gan y byddai'r Prif Reoliadau yn adlewyrchu safbwynt y DU yn gywir.

6.10 Nid oes unrhyw gostau na manteision ariannol ychwanegol ynghlwm wrth ychwanegu Gwlad yr Iâ a Liechtenstein at Atodlen 2 o'r Rheoliadau Codi Tâl gan fod y cytundebau a lofnodwyd yn rhwymo'r DU gyfan ac mae'n ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu, ni waeth a gyfeirir atynt yn benodol yn y Prif Reoliadau neu beidio.

Costau amcangyfrifedig cytundeb y DU â Gwladwriaethau AEE/EFTA i Gymru

6.11 Fel y nodir uchod, bydd unrhyw gostau sy'n deillio o'r cytundebau hyn yn cronni i Gymru o dan Opsiyau 1 a 2. Fe'u cyflwynir felly er gwybodaeth yn unig.

6.12 Disgwylir i'r Confensiwn arwain at gostau bach iawn yn unig i'r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

6.13 O dan y Confensiwn, ni fydd rhaid i unigolion o'r DU dalu am driniaeth gofal iechyd angenrheidiol bellach wrth ymweld â Gwladwriaethau AEE/EFTA ac i'r gwrthwyneb.

6.14 Mae disgwyl i nifer y dinasyddion o Wlad yr Iâ a Liechtenstein sy'n ceisio triniaeth angenrheidiol yng Nghymru fod yn eithriadol o isel oherwydd poblogaethau bach y gwledydd hynny. Disgwylir y bydd costau bach iawn yn unig i Fyrddau Iechyd Lleol yn hyn o beth. Ar ben hynny, byddai unrhyw gostau yn cael eu gwrthbwysu gan arbedion i'r Byrddau Iechyd Lleol o ran dinasyddion Cymru sy'n derbyn triniaeth gofal iechyd angenrheidiol cilyddol yn y gwledydd hynny.

6.15 O ran Norwy, mae'r Confensiwn yn disodli cytundeb dwyochrog presennol rhwng y DU a Norwy sydd eisoes yn darparu ar gyfer triniaeth angenrheidiol ar gyfer gwladolion y DU yng ngwlad ei gilydd. Gan fod y Confensiwn felly'n cadw'r status quo gyda Norwy ynghylch gofal iechyd angenrheidiol, mae'n annhebygol y bydd y Confensiwn yn arwain at gynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu trin yng Nghymru.

6.16 Bydd costau triniaeth wedi'i chynllunio ar gyfer dinasyddion y DU (gan gynnwys dinasyddion Cymru) sy'n ceisio triniaeth yn unrhyw un o Wladwriaethau AEE/EFTA yn cael eu talu gan Lywodraeth y DU ac felly byddant yn arbediad i'r GIG yng Nghymru.

6.17 Disgwylir y bydd nifer yr unigolion o Wladwriaethau AEE/EFTA sy'n ceisio triniaeth wedi'i chynllunio yng Nghymru yn isel iawn. Ar ben hynny, gellir ailgodi tâl am 100% o'r gost ar Wladwriaethau AEE/EFTA am unrhyw driniaeth wedi'i chynllunio y cytunwyd arni yng Nghymru i Wladwriaethau AEE/EFTA gan Fyrddau Iechyd Lleol. Mae'r cytundeb yn darparu'r sicrwydd ychwanegol y gall ceisiadau am driniaeth wedi'i chynllunio gael eu gwrthod gan y Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, os bydd materion capasiti yn codi.

6.18 Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i gael y dyraniad blynyddol presennol o £822,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer trin ymwelwyr tramor na chodir tâl arnynt oherwydd cytundebau gofal iechyd cilyddol.

Bydd parhau â'r dyraniad hwn yn helpu'r Byrddau Iechyd Lleol mewn achosion lle nad oes modd adfer unrhyw gostau oddi wrth ymwelwyr tramor.

7 Asesiad o'r gystadleuaeth

- 7.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

8 Adolygiad ar ôl gweithredu

- 8.1 Nid oes angen adolygiad ar ôl gweithredu gan fod y newidiadau a wneir gan y rheoliadau yn rhoi effaith i gytundebau rhyngwladol.